



Royal College  
of Physicians

NACAP

# Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD (NACAP)

Y prosiect asthma yn dy ysbyty

Gwybodaeth i blant 4–7 oed



Rydym yn argymhell  
bod rhiant neu  
ofalwr yn darllen y  
daflen hon yn gyntaf  
ac yn dewis y geiriau  
mwyaf priodol.

## Beth yw'r prosiect asthma?

Mae rhai pobl sydd ag asthma yn cael pyliau o asthma.

Rwyd ti wedi cael y daflen hon er mwyn i ni roi gwybod i ti am brosiect arbennig sy'n dysgu sut mae meddygon a nyrsys yn gofalu amdanat ti yn yr ysbyty pan rwyd ti wedi cael pwl o asthma.



## Sut mae'r prosiect asthma yn gweithio?

Bydd dy feddygon a'r nyrsys yn dweud wrthym ni pa mor dda maen nhw'n gofalu amdanat pan wyt ti'n cael pwl o asthma.

Bydd hyn yn ein helpu ni i weld a oes angen iddyn nhw newid unrhyw beth i ofalu am blant tebyg i ti yn well yn yr ysbyty.

Bydd y prosiect yn dysgu pethau fel:

- > Dy oed
- > Sut gwnaeth y meddygon a'r nyrsys ofalu amdanat ti yn yr ysbyty
- > Pa fffisig/moddion gefaist ti

Fydd neb yn gofyn unrhyw gwestiwn newydd i ti. Mae'r prosiect yn dechrau ym mis Mehefin 2019 a bydd yn para tan o leiaf fis Chwefror 2021.



## Beth sy'n digwydd nesaf?

- 1 Bydd ein tîm yn ysgrifennu adroddiad am beth rydym wedi'i ddysgu.
- 2 Fyddwn ni ddim yn defnyddio dy enw, pen-blwydd na ble rwyd ti'n byw pan fyddwn yn ysgrifennu'r adroddiad.
- 3 Bydd meddygon a nyrsys yn cael gwybod o'r adroddiad pa mor dda maen nhw'n gofalu am blant sy'n cael pyliau o asthma.



**Gall dy riant neu ofalwr ddweud wrth y meddygon neu wrthym ni os nad wyt ti eisiau i dy wybodaeth gael ei hychwanegu at brosiectau fel hyn. Fydd hyn ddim yn newid sut fath o ofal y byddi di'n ei gael.**

Rwyd ti'n helpu meddygon a nyrsys i ofalu am blant sydd ag asthma drwy fod yn rhan o'r prosiect yma – diolch i ti am ymuno.



## A oes gennyt ti unrhyw gwestiynau?

Mae croeso i ti ofyn i riant neu ofalwr ffonio neu ysgrifennu atom ni yn:

E-bost: [asthma@rcplondon.ac.uk](mailto:asthma@rcplondon.ac.uk)

Ffôn: **020 3075 1526**

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NACAP hefyd:  
[www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma](http://www.rcplondon.ac.uk/nacap-CYP-asthma)

Royal College of Physicians  
11 St Andrews Place  
London NW1 4LE

[www.rcplondon.ac.uk](http://www.rcplondon.ac.uk)



Comisiynwyd gan:



Royal College  
of Physicians